

## CRADOC, WALTER (1610? - 1659), diwinydd a Phiwritan

**Enw:** Walter Cradoc  
**Dyddiad geni:** 1610?  
**Dyddiad marw:** 1659  
**Priod:** Catherine Cradoc (née Langford)  
**Plentyn:** Lois Creed (née Cradoc)  
**Plentyn:** Eunice Cradoc  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** diwinydd a Phiwritan  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Tudur Jones

Ganwyd yn Nhrefela, Llangwm, Mynwy, o deulu da. Etifeddodd ystad gwerth £601 y flwyddyn, a thybir iddo gael ei addysg yn Rhydychen. Fe'i penodwyd yn gurad yn Llanbedr-ar-Elai ac wedi hynny yn gurad i [William Erbury](#) yn eglwys y Santes Fair, Caerdydd. Yno tynnodd wg yr awdurdodau arno'i hun â'i dueddiadau piwritanaidd ac ataliwyd ei drwydded yn 1634. Yna symudodd i Wrecsam lle y gwnaeth ddigon o argraff i'r Piwritaniaid yng Ngogledd Cymru gael eu bedyddio â'r enw 'Cradociaid.' Am y pum mlynedd nesaf yr oedd yn dra gweithgar yn y gororau. Yn 1635-6 treuliodd beth amser gyda [Richard Symonds](#) a Richard Baxter yn yr Amwythig. Ar 8 Mai 1638 fe'i daliwyd yn addoli yn nhy un Mrs. De Lamars Veasy yn Llundain a'i wysio gyda thri arall i ymddangos o flaen Llys yr Uchel Gomisiwn. Efallai iddo ffoi o Lundain i'r gororau gan mai yn Llanfair Waterdine, dan nawdd [Syr Robert Harley](#), y bu o Chwefror hyd Tachwedd 1639 yn aelod o'r cylch piwritanaidd a gasglai yno. Nid oes gofnod iddo ymddangos o flaen yr Uchel Gomisiwn. Rhwng 5 Tachwedd a 6 Rhagfyr 1639 yr oedd yn Llanfaches yn helpu i gychwyn yr achos yno, a sonnir amdano fel y gweinidog effeithiol ar yr eglwys. Pan gychwynnodd y rhyfel cartrefol ffodd eglwys Llanfaches i Fryste (1642) ac wedi cwmp y ddinas honno i Lundain (Gorffennaf 1643); ymunodd ag eglwys All-Hallows the Great yn Thames Street, a Cradoc gyda hi. Ar 26 Mehefin 1641 cefnogodd betisiwn i'r Senedd yn gofyn am fwy o bregethwyr i Gymru, ac yn ystod y pum mlynedd nesaf dadleuodd yn daer iawn gyda'r Senedd a Chynhadledd Westminster dros gael effeithiolach gweinidogaeth yn y Dywysogaeth. Ar 19 Hydref 1646 trwyddedwyd Cradoc i bregethu yng Nghymru - bedwar mis ar ôl iddo draddodi ei bregeth 'The saints fulnesse of joy' o flaen y Ty Cyffredin. (21 Gorffennaf).

Yr oedd yn un o'r prif symudwyr o blaid pasio An Act for the Better Propagation of the Gospel in Wales (1649). Dan y ddeddf hon yr oedd yn un o'r pum profwr ar hugain a chwiliai addaster pregethwyr a fyddai wasanaethu yng Nghymru. Mynwy oedd prif faes ei lafur o hyn hyd ei farw, ac fe'i ceir yn rhannu arian i 'amryw bobl dduwiol' yn y sir honno yn ôl trefniant y ddeddf. Ar 25 Mawrth 1652-3 ymsefydlodd Cradoc ym Mryn Buga, gan ddangos wrth hynny ei gymedroldeb ar bwnc y degwm. Dangosodd ei gymedroldeb drachefn pan gynhyrfwyd [Vavasor Powell](#), gan fethiant Senedd y Saint, i gyhoeddi'r petisiwn *A Word for God* a thrwyddo ddatguddio ei wrthwynebiad i Cromwell. Ymddangosodd Cradoc fel arweinydd cefnogwyr Cromwell yng Nghymru, a lluniwyd y petisiwn teyrngarol, *The Humble Representation and Address*, wedi ei arwyddo gan fwy na 700 o wyr De Cymru, gan mwyaf, fel ateb i betisiwn [Powell](#). Fe'i cyflwynwyd gan Cradoc i Cromwell ar 4 Chwefror 1655-6. Parodd hyn i [Vavasor Powell](#) gyda rhai o aelodau eglwys Wrecsam anfon llythyr cryf ond boneddigaidd at Cradoc yn ei gyhuddo o fradychu'r gwirionedd. Ar ôl hyn tawelodd Cradoc, ac ym Mai 1655 fe'i sefydlwyd yn ficer Llangwm, Mynwy. Bu farw 24 Rhagfyr 1659, ac fe'i claddwyd yng nghanell eglwys Llangwm. Dyddiwyd ei ewyllys 9 Rhagfyr 1659 ac fe'i profwyd 28 Tachwedd 1661 gan Richard Creed.

Ei wraig oedd Catherine Langford, merch [Richard](#) ac Elisabeth Langford o Drefalun, Wrecsam; bu ganddo ddwy ferch, Eunice a Lois - yr olaf yn wraig i Richard Creed.

Fel pregethwr yr adnabyddid Cradoc, a phregethau yw'r rhan helaethaf o'i waith cyhoeddiedig. Dyma ei weithiau: (i) *The Saints fulnesse of joy in their Fellowship with God...* London, 1646; (ii) *Gospel-Libertie in the Extensions/Limitations of it... Whereunto is added good Newes from Heaven...* London, 1648; (iii) *Mount Sion or the Privilege and Practice of the Saints...* London, 1649; (iv) *Divine Drops Distilled from the Fountain of Holy Scriptures...* 1650; (v) *Gospel-Holinesse or The Saving Sight of God...* London, 1651.

### Awdur

Y Parchedig Brifathro Robert Tudur Jones, (1921 - 1998)

### Ffynonellau

Thomas Charles a P. Oliver, *The Works of the late Rev. Walter Cradock* (Chester 1800)

*The Journals of the House of Commons*

Lambeth MS972

Walker Manuscript c, 13

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Walter Cradock](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [52041741](#)

Wikidata: [Q7964611](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

